Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
29/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/06/2017

Trosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd

Crynodeb Gweithredol

1. Cyd-destun a nodau'r ymchwil

1.1 Mae'r adroddiad ymchwil hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar batrymau trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a defnydd o iaith ymhlith teuluoedd â phlant rhwng 0 a 4 oed.[1] Cynhaliwyd y gwaith ymchwil gan ymchwilwyr yn Ysgol y Gymraeg ac Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd mewn cydweithrediad ag Ymchwil Arad a Statiaith.

1.2 Nod y prosiect oedd archwilio sut mae rhieni yn defnyddio'r Gymraeg â'u plant a sut mae gwahanol ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref. Yn benodol, nod y prosiect oedd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Beth yw'r amodau sydd yn hwyluso trosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd, a'r amodau sydd yn gwneud trosglwyddo'r Gymraeg yn llai tebygol?
- Pa amodau sydd yn dylanwadu ar batrymau defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd sydd â phlant 0-4 oed?

1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu trosglwyddo rhwng y cenedlaethau a defnydd o'r Gymraeg yn y teulu yn flaenoriaeth strategol allweddol. Gan fod strategaeth gyfredol y Gymraeg yn dod i ben yn 2017, comisiynwyd yr ymchwil fel rhan o'r

[1] Mae'r term trosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau yn cyfeirio at rieni'n defnyddio iaith neu ieithoedd penodol â'u plentyn/plant a'r plentyn/plant dan sylw yn caffael yr iaith honno yn sgil hynny.

Fframwaith Gwerthuso a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu i ba raddau y mae wedi cyflawni ei nodau strategol. Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o lunio strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg.

1.4 Er mwyn mynd i'r afael â'r nodau a'r cwestiynau, cwblhawyd adolygiad llenyddiaeth trylwyr ar (1) gwaith rhyngwladol ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau a (2) gwaith ymchwil blaenorol ar drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd dadansoddiad ystadegol o ddata perthnasol i drosglwyddo'r Gymraeg o'r Cyfrifiad Cenedlaethol (2011). Roedd y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ganrannau'r plant tair i bedair oed sydd yn byw ar aelwydydd lle mae o leiaf un oedolyn yn siarad Cymraeg. Yna, casglwyd data gwreiddiol gan 60 o deuluoedd trwy holiaduron ysgrifenedig a chyfweliadau lled-strwythuredig a'u dadansoddi gan ddefnyddio dulliau cymysg (gweler adran 2).

2. Dadansoddiad ystadegol o ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol (2011)

2.1 Dangosodd y dadansoddiad o ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol y gwahaniaethau rhwng canrannau'r plant tair i bedair oed yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol fathau o aelwydydd. Ar aelwydydd lle roedd dau riant yn gallu siarad Cymraeg, roedd 82 y cant o'r plant tair i bedair oed hefyd yn siarad yr iaith. Ar aelwydydd lle nad oedd ond un o ddau riant yn gallu siarad Cymraeg, canran y plant tair i bedair oed oedd yn gallu siarad yr iaith oedd 45 y cant. Mewn aelwydydd unig riant lle roedd y rhiant yn gallu siarad Cymraeg, nodwyd bod 53 y cant o'r plant tair i bedair oed yn gallu siarad yr iaith.

2.2 Dangosodd canlyniadau atchweliad rhesymegol o ddata'r Cyfrifiad Cenedlaethol fod cyfatebiaeth rhwng trosglwyddo'r Gymraeg i blant a math o aelwyd, awdurdod lleol[2] ac, i raddau llai, categori economaidd-gymdeithasol (NS-SEC). I grynhoi, mae trosglwyddo yn fwy tebygol mewn teuluoedd lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yng Ngwynedd, ac i raddau llai, ymysg y rhai sydd â busnesau bach, sydd mewn galwedigaethau canolraddol, a galwedigaethau rheoli a phroffesiynol.

3. Methodoleg

3.1 Mabwysiadwyd trefn dulliau cymysg wrth lunio'r brif astudiaeth. Mae'r dadansoddiad meintiol yn seiliedig ar ddata o holiadur ysgrifenedig a chwestiynau caeedig a

[2] Dylid nodi bod nifer y plant tair i bedair oed oedd yn byw ar aelwydydd lle roedd o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg yn amrywio o un awdurdod lleol i'r nesaf.

ofynnwyd mewn cyfweliad llafar â phrif roddwr gofal o leiaf un plentyn 0-4 oed. Gadawyd holiadur arall i bartner y prif roddwr gofal (lle roedd hynny'n berthnasol) ei ddychwelyd drwy'r post. Roedd holiadur y partner yn cynnwys yr holl gwestiynau caeedig o holiadur a chyfweliad yr ymatebydd. Mae'r dadansoddiad ansoddol yn seiliedig ar y cwestiynau penagored a ofynnwyd i'r prif roddwr gofal yn ystod y cyfweliad.

Data meintiol

3.2 Roedd yr holiadur ysgrifenedig yn casglu data am gefndir ieithyddol y rhieni a'u defnydd o iaith, yn ogystal â data ar eu gwerthoedd cymdeithasol ehangach. Cafodd y dull gweithredu hwn ei lywio gan ddulliau seicoleg gymdeithasol ac, yn arbennig, gan Ddamcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB). Mae'r ddamcaniaeth hon wedi'i chymhwyso i sawl ymddygiad, ond hyd yma nid yw wedi cael ei dadansoddi'n feintiol yng nghyd-destun trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Roedd y mesurau TPB a gynhwyswyd yn y gwaith ymchwil cyfredol yn casglu data ar ymagweddau'r ymatebwyr at drosglwyddo (ymagweddau), i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod siarad Cymraeg â phlant yn 'normal' yn eu cymuned (normau cymdeithasol canfyddedig), i ba raddau roeddent yn teimlo eu bod yn gallu siarad Cymraeg â'u plentyn (rheolaeth), ac i ba raddau yr oeddent yn eu gweld eu hunain fel siaradwyr Cymraeg (hunaniaeth bersonol).

Data Ansoddol

3.3 Casglwyd y data ansoddol yn ystod y cyfweliad lled-strwythuredig. Roedd y cwestiynau penagored yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Defnydd yr ymatebwyr o iaith a'u hymagwedd at y Gymraeg yn ystod plentyndod.
- Defnydd cyfredol ymatebwyr o iaith â'r teulu estynedig, ac yn eu rhwydweithiau cymdeithasol a'r gymuned ehangach.
- Ymddygiad ieithyddol cyfredol y teulu yn y cartref.
- Trafodaethau â'r partner, y teulu estynedig, a/neu asiantaethau allanol ynglŷn â defnydd iaith yn y cartref cyn geni'r plentyn ac yn ystod plentyndod cynnar (lle roedd hynny'n berthnasol).

3.4 Dadansoddwyd y data ansoddol mewn modd thematig. Labelwyd ymatebion y cyfranogwyr gan ddefnyddio codau yn seiliedig ar y cwestiynau a ofynnwyd. Yna dadansoddwyd y data oedd wedi'i godio i ganfod themâu.

Y sampl

3.5 Cwblhawyd cyfanswm o 60 o gyfweliadau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016 â phrif roddwyr gofal a chanddynt o leiaf un plentyn rhwng 0 a 4 oed. Haenwyd y sampl yn gyfartal fesul rhanbarth (y gogledd-orllewin a'r de-ddwyrain) i ymchwilio i brofiadau ymatebwyr mewn ardaloedd gwahanol. Dylid nodi, fodd bynnag, nad oedd yr astudiaeth yn ceisio cymharu ardaloedd yn uniongyrchol oherwydd y gwahaniaethau rhwng y gyfran sydd yn gallu siarad Cymraeg yn y ddau ranbarth. Menywod oedd mwyafrif y prif ymatebwyr (*n*=51) a dywedodd pob un fod ganddynt allu yn y Gymraeg. Dychwelodd pum deg tri y cant o bartneriaid yr ymatebwyr yr holiadur (*n*=32). O'r rhain, adroddodd 75 y cant fod ganddynt allu yn y Gymraeg (*n*=24).

4. Dadansoddiad meintiol gan gynnwys mesurau TPB

Defnydd iaith â phlant

4.1 O'r prif ymatebwyr, adroddodd 42 y cant (*n*=25) eu bod yn bennaf, bron bob amser, neu bob amser yn siarad Cymraeg â'u plentyn/plant, o gymharu â 35 y cant a adroddodd eu bod yn bennaf, bron bob amser neu bob amser yn defnyddio Saesneg (*n*=21). Dywedodd y 23 y cant oedd yn weddill eu bod yn gwneud tua'r un defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg (*n*=14). Dywedodd 68 y cant o'r ymatebwyr fod eu defnydd iaith â'u plentyn yn awtomatig yn hytrach nag yn ymddygiad bwriadol.

4.2 Roedd cyfatebiaeth gref rhwng cefndir iaith yr ymatebwyr a'u partneriaid a'u defnydd o'r Gymraeg â'u plentyn/plant.

Newidynnau seicolegol

4.3 Cyflwynwyd y newidynnau seicolegol ar ffurf eitemau Likert seithpwynt lle roedd 1 yn cyfateb i'r ymateb mwyaf negyddol (e.e. 'gwael iawn' neu 'anghytuno'n llwyr') a 7 yn nodi'r ymateb mwyaf cadarnhaol (e.e. 'da iawn' neu 'cytuno'n llwyr'). Lluniwyd yr eitemau hyn i gasglu data ar ymagweddau, normau cymdeithasol canfyddedig, rheolaeth, a hunaniaeth bersonol (gweler 3.2).

4.4 Roedd yr ymagweddau tuag at y Gymraeg yn y sampl yn ffafriol i raddau helaeth ymhlith yr ymatebwyr a'u partneriaid. Roedd yr ymatebwyr a'u partneriaid hefyd yn tueddu i ystyried bod siarad Cymraeg â phlant yn ymddygiad cymdeithasol normadol lle maent yn byw. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr a'u partneriaid yn tueddu i gytuno bod ganddynt reolaeth dros siarad Cymraeg â'u plant.

4.5 Roedd yr ymatebwyr a'u partneriaid hefyd yn tueddu i weld y Gymraeg fel rhan o'u hunaniaeth.

Rhagfynegyddion trosglwyddo rhwng y cenedlaethau

4.6 Cynhaliwyd dadansoddiadau atchweliad ar ddata meintiol yr ymatebwyr i ganfod i ba raddau roedd y newidynnau demograffig a seicolegol yn rhagfynegyddion trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Cafodd y newidyn dibynnol (trosglwyddo) ei godio yn ôl defnydd iaith hunan-gofnodedig yr ymatebwyr â'u plentyn ieuengaf (gweler 4.1). Mae'r dadansoddiad ystadegol yn gyfyngedig oherwydd maint cymharol fach y sampl (60 o ymatebwyr). Dylid gweld ein dadansoddiad, felly, fel arwydd o ddefnyddioldeb newidynnau seicolegol a chymdeithasol wrth ragfynegi trosglwyddo, y gallai ymchwil bellach â sampl mwy adeiladu arnynt (gweler Argymhellion).

4.7 Cynhaliwyd y dadansoddiad cyntaf (atchweliad fesul cam) ar y newidynnau seicolegol yn unig. Dangosodd canlyniadau'r model hwn fod arfer o ran y Gymraeg a hunaniaeth Gymraeg yn rhagfynegyddion pwysig ar gyfer trosglwyddo. Mae hyn yn golygu bod y rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg heb feddwl rhyw lawer am y peth a'r rhai sydd yn teimlo bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

4.8 Cynhaliwyd cyfres bellach o ddadansoddiadau, a oedd yn cynnwys yr holl newidynnau seicolegol a chymdeithasol. Rhanbarth oedd y rhagfynegydd cryfaf ar gyfer trosglwyddo. Mae hyn yn awgrymu bod y rhai yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg na'r rhai yn y de-ddwyrain (er bod y ffactor hwn wedi methu â chyrraedd arwyddocâd ystadegol ac felly efallai ei fod yn digwydd ar hap). Fodd bynnag, mae rhanbarth yn annatod gysylltiedig â ffactorau demograffig eraill (e.e. mae cyfran y plant o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn fwy yn y gogledd-orllewin) sydd yn golygu bod cymharu'n anodd. Mae'r dadansoddiad ansoddol (gweler adran 5) yn canolbwyntio'n fwy ar y berthynas rhwng ffactorau demograffig a throsglwyddo'r Gymraeg ac i ba raddau mae trosglwyddo'n ymddygiad awtomatig.

5. Dadansoddiad thematig ansoddol

5.1 Cododd nifer o brif themâu ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn y cartref a'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar drosglwyddo.

Trosglwyddo'r Gymraeg i blant fel ymddygiad anymwybodol gan ymatebwyr

5.2 Dangosodd y dadansoddiad thematig, yn achos llawer o ymatebwyr yn y gwaith ymchwil presennol, mai'r Gymraeg oedd y brif iaith roeddent yn ei defnyddio â'u plant bob amser, ac nad oeddent wedi meddwl rhyw lawer am eu hymddygiad ieithyddol. Deuai'r ymatebwyr hyn yn bennaf o deuluoedd a oedd yn siarad Cymraeg, roedd ganddynt bartneriaid a oedd yn siarad Cymraeg, ac roeddent yn

dweud eu bod yn hyderus yn siarad Cymraeg.

Defnydd o iaith mewn teulu sydd yn siarad Cymraeg

5.3 O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg â'u teulu, dywedodd y mwyafrif eu bod yn siarad Cymraeg bron bob amser. Nododd rhai rhieni eu bod yn aml yn newid yn ôl ac ymlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg heb feddwl rhyw lawer am y peth, ac mewn nifer llai o achosion, nododd yr ymatebwyr fod defnydd iaith yn gysylltiedig â chyd-destun yn achos eu plant (e.e. chwarae â doliau yn Saesneg). Roedd arsylwi ymddygiad iaith yn y cartref y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil bresennol, fodd bynnag, ac rydym yn argymell y dylid gwneud hyn mewn gwaith ymchwil pellach (gweler Argymhellion).

Trafodaethau ynghylch trosglwyddo iaith ac addasu ar gyfer y Saesneg

5.4 Roedd defnyddio'r Gymraeg yn y cartref wedi cael ei drafod cyn geni'r plentyn yn y rhan fwyaf o achosion mewn teuluoedd dau riant lle nad oedd ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Deuai pob un o'r siaradwyr Cymraeg hyn o gefndir cartref lle siaredid Cymraeg yn bennaf, yn hytrach na'u bod wedi caffael yr iaith trwy'r system addysg yn unig.

5.5 Er i rai ymatebwyr sôn am drafodaethau problemus cyn geni'r plentyn, nododd eraill fod agweddau cadarnhaol eu partneriaid di-Gymraeg tuag at drosglwyddo'r Gymraeg wedi newid ar ôl geni'r plentyn. Nododd yr ymatebwyr nad oedd eu partneriaid yn hapus eu bod yn methu deall sgyrsiau rhwng y plentyn a'r rhiant Cymraeg ei iaith. Mewn achosion o'r fath, ymddangosai fod y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref yn gyfyngedig i ryngweithio un-wrth-un y plentyn a'r rhiant sydd yn siarad Cymraeg yn hytrach na phan fyddant yng nghwmni'r partner di-Gymraeg a'r teulu estynedig.

Trosglwyddo'r Gymraeg i blant fel ymddygiad anymwybodol gan ymatebwyr

5.6 Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr Cymraeg eu hiaith o gartrefi di-Gymraeg (y deuai'r mwyafrif ohonynt o dde-ddwyrain Cymru) wedi ystyried siarad Cymraeg â'u plant. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr hyn wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ond fe wnaethant nodi nad oeddent yn defnyddio llawer o Gymraeg y tu allan i'r dosbarth a bod eu hymagwedd at y Gymraeg, mewn rhai achosion, wedi bod yn negyddol. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, eu bod wedi trafod addysg Gymraeg â'u partner (os yn gymwys) gan eu bod yn sicr eu bod am i'w plentyn/plant gaffael y Gymraeg. Adroddodd ymatebwyr yn aml ynghylch trafodaethau am addysg Gymraeg cyn geni'r plentyn. Mewn llawer o achosion atebai'r ymatebwyr gwestiynau ynghylch trosglwyddo trwy gyfeirio at addysg Gymraeg yn hytrach na defnydd o'r iaith yn y cartref.

Gwneud lle ar gyfer y Gymraeg mewn cartref Saesneg ei iaith

5.7 Nododd mwyafrif yr ymatebwyr o gefndiroedd di-Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y cartref ar ôl i'r plentyn/plant gychwyn mewn addysg Gymraeg. Yn achos pob un o'r ymatebwyr hyn, fodd bynnag, roedd defnydd o'r Gymraeg yn fformiwläig i raddau helaeth (e.e. *bore da*) neu wedi'i gyfyngu i sefyllfaoedd penodol fel helpu â gwaith cartref.

5.8 Soniodd mwyafrif yr ymatebwyr hyn, fodd bynnag, nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg â'u plant. Cyfeiriodd ymatebwyr o'r fath at ddiffyg hyder neu sgiliau iaith 'rhydlyd' ac, i raddau llai, at ganfyddiad nad oeddent yn siarad Cymraeg cywir, neu ddiffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel ffactorau esboniadol.

6. Trafodaeth a chasgliadau

6.1 Mae canlyniadau'r dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yn awgrymu bod ymatebwyr a oedd yn dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith ac a oedd wedi defnyddio'r Gymraeg gydol eu hoes yn fwy tebygol o adrodd eu bod bob amser yn siarad Cymraeg â'u plant. Ar y llaw arall, roedd yr ymatebwyr hynny o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, oedd wedi caffael y Gymraeg trwy addysg Gymraeg, yn tueddu i beidio â defnyddio'r Gymraeg yn aml ac yn siarad Saesneg yn bennaf â'u plant. Dengys hyn fod gwahanol grwpiau o siaradwyr Cymraeg sydd â phrofiadau gwahanol. Argymhellwn y dylid edrych yn fanylach o lawer ar brofiadau'r grwpiau hyn a rhoi sylw iddynt mewn ymgyrchoedd gwybodaeth a/neu ymyrraeth yn y dyfodol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y cartref (gweler Argymhellion).

6.2 Canfu dadansoddiad o'r newidynnau seicolegol fod y rhai oedd yn teimlo bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth ac yn defnyddio'r iaith fel mater o arfer yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg â'u plant (gweler 4.7). Gall fod cysylltiad rhwng y ffactorau hyn a newidynnau demograffig, gan fod defnyddwyr sydd wedi arfer yn fwy â defnyddio'r Gymraeg yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith, sydd eto yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd. Gallai gwaith pellach yn y maes hwn â sampl mwy o faint a mesurau TPB wedi'u haddasu arwain at ganlyniadau arwyddocaol (gweler Argymhellion).

6.3 Yn achos mwyafrif y rhieni yn y sampl, nid ymddygiad a gynlluniwyd oedd trosglwyddo'r Gymraeg neu'r Saesneg i'w plant. Dangosodd canlyniadau'r dadansoddiad ansoddol nad oedd defnydd iaith yn y cartref yn cael ei drafod yn agored cyn geni'r plentyn ond mewn aelwydydd dau riant lle nad oedd ond un rhiant yn siarad Cymraeg. Roedd y rhieni hyn, a oedd wedi caffael y Gymraeg drwy drosglwyddiad gan eu rhieni eu hunain, yn tueddu i drafod defnydd iaith â'u partner a ffafrio siarad Cymraeg â'u plant. Gwelwyd y gallai rhai rhieni di-Gymraeg fod yn

gefnogol i hyn ar y cychwyn, ond canfod eu bod yn teimlo'n anghyfforddus os oedd iaith nad ydynt yn ei deall yn cael ei defnyddio pan oeddent yn bresennol. O ganlyniad, yn achos rhai ymatebwyr, roedd y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref yn lleihau dros amser.

6.4 Yn gyffredinol, nid oedd ymatebwyr a oedd wedi caffael y Gymraeg drwy addysg Gymraeg wedi ystyried siarad Cymraeg â'u plant, ond roeddent am i'w plant fynychu ysgolion Cymraeg. Rydym ni'n dadlau bod hon yn enghraifft o *roddi* iaith i'r genhedlaeth nesaf, yn hytrach na *throsglwyddo* iaith rhwng y cenedlaethau.

6.5 Wrth i'w plentyn/plant gychwyn yn yr ysgol, roedd llawer o ymatebwyr o gefndiroedd Saesneg eu hiaith wedi adfyfyrio ar eu defnydd o iaith, ond yn adrodd eu bod yn teimlo'n ddi-hyder yn y Gymraeg oherwydd diffyg defnydd ers dyddiau ysgol, ac i raddau llai, eu bod yn gweld agweddau negyddol at eu 'math' nhw o Gymraeg a diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu hardal leol. Awgryma'r canlyniad hwn sut gall defnydd o iaith newid dros amser a sut gall digwyddiadau pwysig bywyd effeithio ar hynny. Gallai ymchwil hydredol bellach fwrw mwy o oleuni ar hyn, a dylai unrhyw weithgarwch pellach ynghylch trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru a'i rhanddeiliaid ystyried hefyd gefnogi defnydd o'r Gymraeg ar ôl i ddisgyblion adael addysg Gymraeg (gweler Argymhellion).

6.6 Mewn rhai achosion, nododd ymatebwyr o gefndiroedd Saesneg eu hiaith eu bod yn defnyddio Cymru fformiwläig yn eu cartrefi i gefnogi eu plant wrth iddynt gaffael yr iaith. Roedd arsylwi ymddygiad ieithyddol *in situ* (e.e. defnydd o Gymraeg fformiwläig, trawsieithu, a chyfnewid codau) y tu hwnt i gwmpas y gwaith ymchwil presennol, a dylid ymdrin â hynny mewn gwaith ymchwil yn y dyfodol (gweler Argymhellion).

7. Argymhellion

- Argymhellwn gynnal ymchwil i ddatblygiad iaith yng nghyd-destun dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg (a/neu amlieithrwydd) yn y cartref. Dylai hyn dargedu nodweddion megis caffael gramadeg, geirfa, sut mae brawddegau yn cael eu llunio, eitemau geiriol, a chaffael ffonoleg ymhlith plant.
- Argymhellwn y dylai ymchwil bellach ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau gynnwys archwiliad manylach o ddylanwad cyfansoddiad ieithyddol yr aelwyd ar brofiadau teuluoedd wrth drosglwyddo iaith. Diben yr ymchwil hon fyddai mireinio ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng arferion trosglwyddo iaith a nodweddion ieithyddol gwahanol grwpiau neu deipolegau o deuluoedd.
- Argymhellwn y dylai ymchwil bellach yn gasglu data gan blant yn ogystal a chan oedolion er mwyn darparu dealltwriaeth fwy trylwyr o ran trosglwyddo iaith ac

ymddygiad ieithyddol y teulu.

- Argymhellwn y dylai ymchwil ar drosglwyddo iaith rhwng y cenedlaethau gynnwys dulliau arsylwi, er mwyn ategu'r dulliau casglu data eraill megis hunan-adrodd. Byddai hyn yn caniatáu triongli data ac ymchwiliad llawnach o strategaethau defnydd iaith a disgwrs dwyieithog a ddefnyddir gan rieni a phlant yn y cartref.
- Argymhellwn fod mentrau Llywodraeth Cymru ym maes trosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth o ymchwil ac ymarfer ym maes gwyddoniaeth a newid ymddygiadol. Yn benodol, dylai'r ddealltwriaeth hon gael ei llywio gan ymchwil sydd wedi cymhwyso modelau ar sail bwriad, megis Damcaniaeth Cynllunio Ymddygiad (TPB) i drosglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau. Dylai ymchwil o'r fath geisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau a ddarganfuwyd yn y prosiect hwn ynglŷn â samplu drwy ddefnyddio sampl mwy a mesurau TPB diwygiedig.
- Argymhellwn gynnal ymchwil hydredol er mwyn archwilio sut mae defnydd unigolion o'r Gymraeg yn newid dros eu hoes ac i ba raddau mae ffactorau cymdeithasol yn effeithio ar y defnydd hwn.
- Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (gan gynnwys mentrau cymunedol a noddir gan Lywodraeth Cymru) yn mynd ati mewn modd systematig i gasglu data demograffig ac ieithyddol am rieni a darpar rieni yng Nghymru. Dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio ar gyfer ymchwil ddemograffig a dosbarthu targedu a gwybodaeth berthnasol ar weithgareddau hyrwyddo iaith i grwpiau penodol o siaradwyr Cymraeg.
- Argymhellwn fod ymyriadau sydd yn ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg rhwng y cenedlaethau yn mabwysiadu dulliau gweithredu sydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth fanwl o'r gwahanol fathau o deuluoedd a allai fodoli. Dylai'r ymyriadau hyn geisio ymateb yn uniongyrchol i'r heriau mae'r grwpiau hyn yn eu nodi.
- Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut gall ymyriadau sy'n ymwneud â throsglwyddo'r Gymraeg dargedu siaradwyr Cymraeg mewn modd effeithiol cyn geni'r plentyn a/neu ystod blynyddoedd cynnar y plentyn, ac adolygu'r dull mwyaf priodol o gyrraedd siaradwyr Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn.
- Argymhellwn fod hyfforddiant cychwynnol athrawon a darpariaeth dysgu proffesiynol yn cynnwys cyfleoedd i hyfforddeion a staff ddatblygu dull seicolegol cymdeithasol o fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol ymhlith disgyblion sydd yn medru'r Gymraeg, ond nad ydynt yn ei defnyddio.
- Argymhellwn gynnal (1) ymarfer mapio i ddeall yn well lefelau'r ddarpariaeth gyfredol o ran cyfleoedd i oedolion sydd ond wedi meddu ar gyfleoedd prin i

ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael ysgolion Cymraeg (2) cynnal ymarfer sgopio er mwyn canfod pa fodelau o ymgysylltu ysgol-cymuned sydd yn bodoli mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud â'r Gymraeg. Dylid archwilio addasu'r modelau hyn i ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhieni sydd yn medru'r Gymraeg ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd, er mwyn eu hailgyflwyno i ddefnydd iaith gweithredol.

Argymhellwn hefyd archwilio cynlluniau mentora posibl (3) rhwng rhieni a chanddynt wahanol allu yn y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (4) cynnal gwaith ar 'bendantrwydd ieithyddol' er mwyn deall sut gallai gynorthwyo siaradwyr Cymraeg llai hyderus i ddefnyddio eu sgiliau iaith. Dylai canfyddiadau'r gwaith hwn fwydo'n uniongyrchol i fentrau newydd i annog y defnydd o'r Gymraeg ymhlith oedolion a allai fod am ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach.

Ymchwil i'r Amodau sydd yn Dylanwadu ar Drosglwyddo'r Gymraeg a'i Defnydd mewn Teuluoedd

Awduron:

Jeremy Evas a Jonathan Morris, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
Lorraine Whitmarsh, Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd:

Mewn cydweithrediad â:
Hywel M. Jones, Statiaith
Sioned Lewis a Tanwen Grover, Arad

Adroddiad Ymchwil Llawn ar gael yn:
http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-language-transmission-use-in-families/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Heledd Jenkins
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Heledd.Jenkins2@cymru.gsi.gov.uk

ISBN 978-1-4734-9803-7 © Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.